

Sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol?

Yr hyn yr ydym yn ei ddefnyddio i arolygu

Mae [Deddf Safonau Gofal 2000](#) yn rhoi'r pwerau a'r cyfrifoldebau i AGIC gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Mae manylion pellach am y modd y mae AGIC yn cofrestru [gwasanaethau annibynnol](#) a [deintyddion preifat](#) ar gael ar wefan AGIC.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud sawl cyfres o reoliadau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (deddfwriaeth eilaidd) y mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol lynu wrthynt. Mae'r rhain yn cynnwys [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#), [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2008](#) a [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) \(Diwygio\) 2011](#).

Er bod AGIC yn cofrestru deintyddion preifat unigol, rydym yn arolygu'r practis deintyddol. Mae'r gwaith preifat a wneir mewn practis yn cael ei fesur yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Os darperir gofal y GIG mewn practis hefyd, rydym yn edrych ar y modd y mae gwasanaethau yn diwallu'r Safonau Iechyd a Gofal. Darllenwch [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) am fwy o fanylion.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.



Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. Mae'r safonau hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, waeth beth fo'u maint a'u math. Rydym yn defnyddio'r safonau hyn i wneud dyfarniadau am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion ac i'n helpu i bennu p'un a yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) ai peidio.

Rydym yn adrodd ac yn cyhoeddi canfyddiadau ein harolygiadau o dan dair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:**

Rydym yn siarad â chleifion a/neu eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a'u heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf wrth galon ein dull o arolygu.

- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:**

Rydym yn ystyried i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:**

Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn arwain at ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Pwy yr ydym yn eu harolygu

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau annibynnol canlynol:

- Ysbytai annibynnol
- Clinigau annibynnol

- Asiantaethau meddygol annibynnol
- Deintyddion preifat
- Sefydliadau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio at ddibenion meddygol, e.e. pelydr-X (gweler ein [gwefan](#) am fwy o fanylion).

Mae manylion pellach am y mathau o wasanaethau ym mhob un o'r categorïau hyn wedi'u diffinio yn y Ddeddf Safonau Gofal ac ar ein [gwefan](#) hefyd.

Sut yr ydym yn arolygu

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd.

Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd. Fel arfer, mae ein harolygiadau o ysbytai yn ddirybudd.

Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad â rhybudd, sy'n golygu y gall gwasanaeth gael o bosibl hyd at 12 wythnos o rybudd am yr arolygiad trwy lythyr neu e-bost. Wrth benderfynu a ddylai arolygiad fod â rhybudd, rydym yn ystyried:

- A fyddai arolygiad dirybudd yn creu lefel annerbyniol o aflonyddwch ar y cleifion a'r staff
- A yw'n angenrheidiol i gasglu gwybodaeth cyn yr arolygiad gan y darparwr
- A oes angen i ni sicrhau bod rhai aelodau staff allweddol yn bresennol ar ddiwrnod(au) yr arolygiad.

Am y rhesymau uchod, rhoddir rhybudd fel arfer ar gyfer arolygiadau o ddeintyddion preifat a rhai ysbytai annibynnol sy'n llai o faint. Fodd bynnag, os oes gennym bryderon ynglŷn â gwasanaeth a diogelwch cleifion neu am resymau eraill, gallem ddewis cynnal arolygiad dirybudd ar unrhyw adeg.

Bydd ein tîm arolygu yn cynnwys o leiaf un arolygydd AGIC ac fel arfer o leiaf un adolygydd cymheiriaid clinigol, sef unigolyn sydd ag arbenigedd yn y maes rydym yn ei arolygu. Er enghraifft, ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol preifat, bydd ein hadolygydd cymheiriaid clinigol yn ddeintydd â phrofiad ymarferol diweddar o ddeintyddiaeth. Bydd y nifer o aelodau'r tîm arolygu yn amrywio, yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y gwasanaeth.

Mae ein harolygiadau fel arfer yn para rhwng un a thri diwrnod, yn dibynnu ar y math o wasanaeth rydym yn ei arolygu.

Sut yr ydym yn penderfynu pryd ac ym mha le yr ydym yn arolygu

Rydym yn bwriadu arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol o leiaf unwaith bob tair blynedd ac, mewn lleoliadau lle cynhelir gweithdrefnau mwy cymhleth, byddwn yn cynnal arolygiadau yn amlach.

Wrth ystyried pryd ac ym mha le y byddwn yn arolygu, rydym yn ystyried yr holl dystiolaeth a gwybodaeth sydd gennym ni am sefydliad a gasglwyd dros amser. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwybodaeth o arolygiadau ac adolygiadau blaenorol AGIC
- Bregusrwydd y grŵp cleifion neu gymhlethdod y gwasanaeth
- Data penodol sydd ar gael i AGIC
- Problemau a phryderon a rannwyd gan sefydliadau partner
- Pryderon a leisiwyd gan gleifion a staff (gweler ein [gwefan](#) am fanylion pellach am leisio pryderon)
- Blaenoriaethau cenedlaethol, a safonau neu ofynion ansawdd newydd
- Mannau dall.

Mae manylion pellach am sut yr ydym yn penderfynu ym mha le i ganolbwyntio ein gwaith ar ein [gwefan](#).

Yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn ystod ein harolygiadau

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Mae'n bosibl hefyd y gallant nodi problemau ehangach sy'n gysylltiedig â'r gwaith o lywodraethu'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir.

Mae'r tabl canlynol yn dangos pob un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol rydym yn eu hystyried, yr hyn yr ydym yn chwilio amdano yn ystod yr arolygiad, a sut rydym yn gwneud hyn.

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
Ansawdd profiad y claf	3. Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd	<ul style="list-style-type: none"> Dylai cleifion gael eu cefnogi i ofalu am eu hiechyd a llesiant eu hunain Dylai gwasanaethau iechyd hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a gweithleoedd iach, a dylent helpu pobl i wneud dewisiadau iach Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau eu bod yn defnyddio materion a chyingor iechyd cyhoeddus yn eu gwaith Dylai gwasanaethau iechyd fod â ffyrdd o sgrinio, darganfod a rhwystro 	<ul style="list-style-type: none"> Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr Trafodaethau a chyfweliadau â staff Arsylwadau Adolygiad o wybodaeth cleifion sydd ar gael Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
		lledaeniad clefydau	
	10. Urddas a pharch	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai cleifion gael eu trin ag urddas a pharch • Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod holl anghenion cleifion yn cael eu diwallu, gan gynnwys anghenion a hoffterau corfforol, cymdeithasol, seicolegol, crefyddol, ysbrydol, ieithyddol a diwylliannol 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Arsylwadau ar y rhyngweithio rhwng staff a chleifion • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalmwyr
	9. Gwybodaeth a chydsyniad cleifion	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai cleifion dderbyn gwybodaeth dda am eu gofal sy'n hawdd ei deall ac yn cael ei rhoi ar yr amser cywir fel bod modd iddynt wneud y dewis sydd orau iddynt • Dylai cleifion allu trafod eu gofal a gwneud dewisiadau • Dylai gwasanaethau iechyd feddwl yn ofalus am y modd y mae cleifion yn cydsynio i'w gofal a thriniaeth ac yn 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o wybodaeth cleifion • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalmwyr • Trafodaethau a chyfweliadau â staff • Adolygiad o wybodaeth cleifion sydd ar gael • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
		deall y canllawiau a'r cyfreithiau sy'n berthnasol	
	18. Cyfathrebu'n effeithiol	<p>Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion a phobl eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar yr adeg gywir • Mewn modd y gall pobl ei ddeall yn hawdd • Gan ddiwallu'r holl anghenion iaith a chyfathrebu • Gan roi gwybodaeth glir am yr holl wasanaethau maent yn eu darparu a chostau triniaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Trafodaethau a chyfweliadau â staff • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd
	8. Cynllunio a darparu gofal	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai cleifion dderbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir yn y lle cywir gan y staff cywir • Dylai cleifion gael eu cefnogi i ofalu am eu hiechyd a llesiant eu hunain • Dylai gwasanaethau iechyd weithio 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr (lle bo'n briodol) • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Trafodaethau a chyfweliadau â staff

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
		gyda sefydliadau eraill i ddiwallu anghenion y cleifion	<ul style="list-style-type: none"> • Arsylwadau • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
	2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol	<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r holl wasanaethau iechyd ddeall a chefnogi cydraddoldeb a hawliau dynol i bawb 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr (lle bo'n briodol) • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Adolygiad o gofnodion hyfforddiant staff • Arsylwadau • Trafodaethau a chyfweliadau â staff
	5. Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai cleifion a'u teuluoedd allu sôn wrth wasanaethau iechyd am eu profiadau o ofal • Dylai gwasanaethau iechyd ddysgu o'r hyn y mae cleifion a theuluoedd yn dweud wrthynt a gwneud 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr (lle bo'n briodol) • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Adolygiad o systemau adborth, gan

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
		gwasanaethau'n well	gynnwys polisi a gweithdrefnau cwyno <ul style="list-style-type: none"> • Arsyllwadau • Gwybodaeth a gedwir gan AGIC • Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12. Amgylchedd	Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd: <ul style="list-style-type: none"> • Yn hygyrch • Wedi'u cynnal a'u cadw'n dda • Yn addas i'r diben • Yn ddiogel ac yn sicr • Yn amddiffyn preifatrwydd • Yn gynaliadwy 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalywyr (lle bo'n briodol) • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd • Adolygiad o bolisiâu a gweithdrefnau • Arsyllwadau • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff
	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch, a 4. Trefniadau cynllunio ar gyfer	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i wasanaethau iechyd ofalu am iechyd a diogelwch pobl a sicrhau bod unrhyw beryglon yn cael 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o bolisiâu a gweithdrefnau • Arsyllwadau • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
	argyfwng	eu rheoli cystal â phosibl	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr
	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai gwasanaethau iechyd gynnwys pawb yn y gwaith o helpu i reoli ac atal heintiau fel nad yw pobl yn mynd yn sâl 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o ddogfennau, e.e. archwiliadau, asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau • Arsylwadau • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff
	14. Maetheg	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai cleifion gael eu cefnogi i fwyta ac yfed fel eu bod yn gallu gwella'n gynt • Dylai cleifion allu cael bwyd a diod pan fydd eu hangen arnynt • Dylid rhoi dewis o fwyd i gleifion sy'n diwallu eu hanghenion, gan gynnwys anghenion maethol, therapiwtig, diwylliannol a chrefyddol • Dylai mamau sy'n bwydo ar y fron gael eu cefnogi i wneud hyn 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o ddogfennau, e.e. prosesau archwilio a monitro • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Arsylwadau • Ymatebion yn holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
	15. Rheoli meddyginiaethau	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n ddiogel gan y staff cywir • Dylai cleifion dderbyn y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir • Dylai cleifion dderbyn cyngor a gwybodaeth am eu meddyginiaeth a dylent allu gofyn cwestiynau a siarad am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o ddogfennau, e.e. archwiliadau, polisi a gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau • Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Trafodaethau â chleifion, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a gofalwyr (lle bo'n briodol) • Arsylwadau ar drefniadau gweinyddu a storio meddyginiaeth
	11. Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i wasanaethau iechyd gefnogi ac amddiffyn pob plentyn ac unrhyw oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl • Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod gan staff y sgiliau cywir mewn diogelu a'u bod yn rhannu eu dysgu 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o gofnodion hyfforddiant staff • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau diogelu • Adolygiad o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ac asesiadau'r Ddeddf

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
			Galluedd Meddyliol mewn cofnodion meddygol cleifion, lle bo'n briodol
	17. Rheoli gwaed	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai cleifion allu cael gwaed pan mae ei angen arnynt • Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn gwaed yn ddiogel gan staff sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant cywir 	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau • Cofnodion hyfforddiant staff • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr
	16. Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gyfarpar maent yn ei ddefnyddio yn ddiogel ac yn gweithio'n dda • Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod cyfarpar yn addas ar gyfer yr hyn mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer, a'i fod yn addas ar gyfer yr amgylchedd lle caiff ei ddefnyddio • Dylai gwasanaethau iechyd fod â staff sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant cywir i 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr • Arsylwadau • Adolygiad o ddogfennau, e.e. dogfennau gwasanaethu a gosod

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
		ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel	
	7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Dylai cleifion dderbyn y gofal a thriniaeth gywir ar gyfer eu hanghenion Dylai gwasanaethau iechyd wybod y ffyrdd gorau o ofalu am gleifion a'u cefnogi 	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion Trafodaethau a chyfweiliadau â staff Adolygiad o ddogfennau, e.e. archwiliadau, asesiadau risg, prosesau monitro Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd
	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd, a 21. Ymchwil, datblygiad a dyfeisgarwch	<ul style="list-style-type: none"> Dylai gwasanaethau iechyd ystyried gwahanol ffyrdd o wneud gwasanaethau'n well, yn seiliedig ar ymchwil dda a rhannu dysgu 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr Adolygiad o ddogfennau, e.e. archwiliadau, mentrau gwella ansawdd Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd
	19. Rheoli gwybodaeth a	<ul style="list-style-type: none"> Dylai gwasanaethau iechyd fod â'r systemau gwybodaeth cywir i gefnogi 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr


Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
	thechnoleg cyfathrebu	<p>gofal cleifion</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod y wybodaeth hon yn ddiogel ac yn cael ei rhannu'n ddiogel 	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad o ddogfennau, e.e. polisïau a gweithdrefnau Trafodaethau a chyfweiliadau â staff
	20. Rheoli cofnodion	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n bwysig iawn bod gwasanaethau iechyd yn cadw cofnodion da i sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal cywir Mae'n rhaid i wasanaethau iechyd ddilyn y rheolau ynghylch sut i gofnodi gwybodaeth a'i chadw'n ddiogel 	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion Trafodaethau a chyfweiliadau â staff Adolygiad o ddogfennau, e.e. archwiliadau
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	1. Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	<p>Dylai gwasanaethau iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> Wneud y pethau iawn yn dda Gwybod pa mor dda maent yn gwneud Sicrhau eu bod yn diwallu'r rheoliadau a'r safonau Cywiro pethau'n gyflym pan fyddant yn mynd o'u lle 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr Trafodaethau a chyfweiliadau â staff Adolygiad o ddogfennau, e.e. polisïau a gweithdrefnau, archwiliadau, cynlluniau'r dyfodol Gwybodaeth a gedwir gan AGIC Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
	23. Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau	<p>Dylai gwasanaethau iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adrodd a gweithredu ar unrhyw bryderon yn gyflym • Bod yn agored a gonest â chleifion pan maent yn dweud wrthynt fod rhywbeth wedi mynd o'i le • Cefnogi cleifion a staff pan mae pryder yn effeithio arnynt • Dysgu o'r hyn sydd wedi mynd o'i le a'i rannu ag eraill 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfweiliadau ag uwch-reolwyr • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Adolygiad o systemau adborth gan gynnwys polisi a gweithdrefnau cwyno • Adolygiad o ddogfennau, e.e. polisiâu a gweithdrefnau, archwiliadau • Gwybodaeth a gedwir gan AGIC • Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd
	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol 24. Arferion recriwtio a chyflogi gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> • Dylai gwasanaethau iechyd fod â digon o staff sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant cywir i allu rhoi'r gofal gorau i gleifion • Dylai gwasanaethau iechyd gefnogi staff i gael y sgiliau cywir y mae eu hangen arnynt ar gyfer eu swydd a 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion yn holiaduron staff AGIC a gwblhawyd • Trafodaethau a chyfweiliadau â staff • Adolygiad o ddogfennau, e.e. rotâu, cofnodion hyfforddiant staff, gweithdrefnau recriwtio

Thema arolygu AGIC	Pa un o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n berthnasol?	Am beth ydym ni'n chwilio?	Sut yr ydym ni'n gwneud hyn?
		sicrhau eu bod yn gallu gwneud eu swydd yn dda	<ul style="list-style-type: none"> <li data-bbox="1451 491 1666 523">• Arsyllwadau

Beth sy'n digwydd ar ôl ein harolygiadau?

Mae'r diagram isod yn dangos y broses yn dilyn ein harolygiadau.



Translation of above diagram:

Amserlen yn dilyn arolygiad (Post inspection timeline)

Diwrnod olaf arolygiad (Final day of inspection)

Rhoddir adborth ar lafar i'r gwasanaeth a staff perthnasol am ganfyddiadau allweddol yr arolygiad

Dau ddiwrnod (2 days)

Os oes gennym bryderon uniongyrchol am ddiogelwch y cleifion, rydym yn ysgrifennu at y gwasanaeth yn mynnu camau gweithredu brys

Tair i bum wythnos (3-5 weeks)

Mae gwasanaethau'n derbyn adroddiad drafft i wirio am gywirdeb ffeithiol. Os byddwn wedi nodi meysydd i'w gwella, bydd angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella

Wyth wythnos (8 weeks)

Adroddiad arolygu yn cael ei gwblhau a'i anfon i'w gyfieithu

Tri mis (3 months)

Adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC yn Gymraeg ac yn Saesneg

Pan nodir pryderon ynghylch diogelwch cleifion ac achosion difrifol o dorri'r Rheoliadau, mae'n bosibl y byddwn yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth a allai arwain at achosion sifil neu droseddol. (Where we identify concerns...)

Byddwn yn ysgrifennu adroddiad arolygu

Ar ôl ein harolygiadau, byddwn yn ysgrifennu adroddiad arolygu a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan. Cyn hyn, bydd gwasanaethau yn derbyn adroddiad arolygu drafft i'w wirio am gywirdeb ffeithiol.

Byddwn yn mynnu bod gwasanaethau yn gwneud gwelliannau lle bo angen

Pan fyddwn yn nodi meysydd i'w gwella neu feysydd pryder, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Byddwn yn codi unrhyw bryderon uniongyrchol sy'n ymwneud â diogelwch cleifion â'r gwasanaeth ar ddiwrnod yr arolygiad
- Mae'n bosibl y byddwn yn cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio pe bai pryderon sylweddol gennym ynghylch llesiant y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gall yr hysbysiad hwn gael ei gyflwyno ar unrhyw adeg, gan gynnwys yn syth ar ôl yr arolygiad pan fyddwn yn nodi maes o ddiffyg cydymffurfio sy'n mynnu cam gweithredu brys. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol
- Os bydd arolygwyr yn canfod canlyniadau gwael iawn a pherygl difrifol i iechyd a lles pobl, mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau gweithredu brys. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bosibl y byddwn yn cymryd y camau canlynol:
 - Gorfodi amodau ar unwaith (amrywio neu dynnu ymaith) neu atal ar unwaith
 - Cais i ganslo cofrestrriad ar frys
- Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth gyflwyno cynllun gwella sy'n disgrifio sut y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r arolygiad
- Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr gwasanaeth fynychu cyfarfod wyneb yn wyneb i drafod ein pryderon

Mae manylion pellach am ein [proses orfodi a diffyg cydymffurfio](#) ar ein gwefan.

Rydym yn disgwyl bod gan wasanaethau cofrestredig drefniadau llywodraethu da ar waith i fonitro'r gofal a'r gwasanaethau maent yn eu darparu'n barhaus i sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol yn unol â disgwyliadau cyfreithiol.

Byddwn yn penderfynu a fydd angen i ni gymryd camau pellach

Yn dilyn arolygiad ac ar ôl derbyn unrhyw gynllun gwella, byddwn yn ystyried a yw unrhyw gamau pellach yn angenrheidiol er mwyn dilyn hynt problemau a nodwyd yn ystod arolygiad. Mae'n bosibl y byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Gofyn am ddiweddariad gan y gwasanaeth ynghylch hynt cyflenwi cynllun gwella
- Cynnal arolygiad â phwyslais penodol i wirio neu brofi a yw camau gweithredu penodol wedi cael eu cwblhau
- Cynnal ail-arolygiad llawn nad yw wedi'i gyfyngu i'r problemau a nodwyd yn yr arolygiad gwreiddiol
- Gofyn i asiantaethau eraill ystyried cynnal gweithgareddau dilynol ag AGIC neu ar eu pennau eu hunain
- Mae hefyd yn bosibl y byddwn yn cymryd camau gorfodi, gan gynnwys cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn unol â'n proses orfodi a diffyg cydymffurfio.

Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw bryderon (e.e. gan gleifion a staff) a gwybodaeth (e.e. digwyddiadau a chanfyddiadau arolygiadau) rydym yn eu derbyn am wasanaethau gofal iechyd yn barhaus i bennu pa gamau mae angen i AGIC eu cymryd. Ceir manylion pellach ar ein [gwefan](#).